At: Penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru
Cyfeirnod: W03/73HE
Dyddiad: 22 Rhagfyr 2003
Ymateb erbyn: 21 January 2004
Gwybodaeth bellach: Jane Johns

YMGYRRAEDD YN UWCH – YMGYRRAEDD YN EHANGACH
ARWEINIAD AR GYFLWYNO CYNIGION AR GYFER CYLLID BLWYDDYN DAU

Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2003, cadarnhaodd y Cyngor y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach*:

- Byddai'r gyllideb blwyddyn dau ar gyfer y cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* yn £1.95m. Mae'r swm hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cadw elfen o gyllid blwyddyn dau ar gyfer y cynllun Anelu'n Uwch.
- Ni fyddai cynnydd na gostyngiad *o fwy na* 15% yn y cyllid blwyddyn dau ar gyfer unrhyw bartneriaeth *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y partneriaethau ac i alluogi twf lle bo'n briodol.
- Byddai'r partneriaethau yn cael gwybod am eu dyraniad cyllid lleiaf erbyn diwedd mis Rhagfyr 2003, er mwyn sicrhau bod contractau tymor-byr sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2004 yn gallu cael eu hestyn y tu hwnt i fis Ebrill 2004.
- Bydd y cyllid ar gyfer cydlynu *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* yn aros yr un fath ag ym mlwyddyn un, hynny yw £100k.

Erbyn hyn derbyniwyd y mwyafrif o adroddiadau ar gynnydd mewn perthynas â gweithgareddau blwyddyn un y cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* ac rydym yn ddiolchgar i'r partneriaethau hynny a oedd yn gallu cyflwyno'r adroddiadau yn brydlon.

Ymhellach i lythyr y Cyngor dyddiedig 5 Tachwedd 2003, a nododd y dylai cynigion am gyllid ar gyfer blwyddyn dau o *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* gael eu cyflwyno i'r Cyngor erbyn canol Ionawr 2004, gallaf bellach gadarnhau y bydd angen cyflwyno cynigion blwyddyn dau erbyn Dydd Mercher 21 Ionawr 2004.

Pwrpas y ddogfen amgaeëdig yn atodiad A yw cynnig arweiniad i bartneriaethau *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* ar gyflwyno cynigion am gyllid blwyddyn dau.

Os hoffech drafod materion yn ymwneud ag Ymgyrraedd yn Ehangach, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â Jane Johns, Cydlynydd Cenedlaethol, Ymgyrraedd yn Ehangach, drwy ffonio: (01570) 424892 neu e-bostio: Jane.Johns@lamp.ac.uk.

Yr eiddoch yn gywir

PROFESSOR PHILIP GUMMETT
DIRECTOR OF HIGHER EDUCATION